

## FITZSTEPHEN, ROBERT (bu farw c. 1183), un o goncwerwyr Iwerddon

**Enw:** Robert Fitzstephen  
**Dyddiad marw:** c. 1183  
**Rhiant:** Nest ferch Rhys ap Tewdwr  
**Rhiant:** Stephen  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** un o goncwerwyr Iwerddon  
**Maes gweithgaredd:** Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol  
**Awdur:** Bertie George Charles

mab Stephen, cwnstabl castell Aberteifi yn 1136, a [Nest](#), merch [Rhys ap Tewdwr](#). Yr oedd yn berchen ar diroedd yng Nghemais a dilynodd ei dad fel cwnstabl Aberteifi. Pan ymosododd Harri II ar deyrnas [Owain Gwynedd](#) yng Ngogledd Cymru yn 1157, aeth Robert â llynges i'w gynorthwyo. Fe'i clwyfwyd yn ddrwg yn yr ymladd, ond dihangodd i'r llongau gerllaw. Ymddengys iddo amddiffyn castell Aberteifi dros [deulu Clare](#) yn dra llwyddiannus am gyfnod maith, hyd yn oed yn erbyn ymosodiad [Hywel ap Owain](#) yn 1145. Ni syrthiodd y castell i ddwylo'r Cymry tan 1165, ar ôl i [Rhys ap Gruffydd](#) ddarostwng Ceredigion bron yn llwyr. Pryd hynny bradychwyd y castell i ddwylo [Rhys](#), difodwyd ef yn llwyr, a charcharwyd Robert am dros dair blynedd. Ar ôl ei ryddhau croesodd i Iwerddon i helpu brenin Leinster a chymerodd ran bwysig yng nghoncwest Iwerddon, lle y rhoddwyd tiroedd iddo yn Wexford a'r cylch. Yn 1177 anrhegwyd ef â rhan o deyrnas Cork, lle bu'n llywodraethu tan ei farw, c. 1183. Sefydlwyd mynachlog Ystrad Fflur yn 1164 ar dir a roddodd ef i'r mynachod. Efe hefyd a gyflwynodd Llanfyrnach ar Daf i farchogion Slebech.

### Awdur

Dr Bertie George Charles, (1908 - 2000)

### Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 499, 504, 519, 538-9, 597  
*Oxford Dictionary of National Biography*

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Robert Fitz-Stephen](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q3400910](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

